## Gweithgaredd Dysgu- Cyfnod Allweddol 3

Mae'r adnodd hwn yn darparu gweithgareddau dysgu ar gyfer eich myfyrwyr, gan ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru. Mae'n un o gyfres o naw yn ymwneud â Phatagonia ar gyfer CA3.

Sefydlu'r Wladfa Gymreig ym Mhatagonia
Mordaith y 'Mimosa', 1865
**Brodorion Patagonia a'r gwladfawyr Cymreig**
Dyddiau cynnar ar dir Patagonia
O ddyffryn Camwy i Gwm Hyfryd - Patagonia
Dyddiau du - llifogydd ac allfudo
Ysgolion cynnar y Wladfa
Hanes yr Iaith Gymraeg ym Mhatagonia
Capeli ac eglwysi'r Wladfa

# Brodorion Patagonia a'r gwladfawyr Cymreig

## Gan Culturenet Cymru

## Cyflwyniad

*'Y maent ar y telerau gorau â'r Cymry ac edrycha'r Indiaid ar y Cymry fel eu brodyr.'*

**Tasgau ac amcanion dysgu**

1. Y blynyddoedd cynnar
2. Dyddlyfr Lewis Jones
3. Y Drol
4. Amaethyddiaeth

[Lawrlwytho'r Casgliad o ddelweddau a thaflenni gwaith ar gyfer y gweithgaredd hwn o Gasgliad y Werin Cymru]

## Brodorion Patagonia a'r gwladfawyr Cymreig

*'Y maent ar y telerau gorau â'r Cymry ac edrycha'r Indiaid ar y Cymry fel eu brodyr."*

Nid y Cymry oedd y bobl gyntaf i fyw ym Mhatagonia. Am ganrifoedd, bu brodorion yn byw yno yn • ôl eu harferion eu hunain. Un o’r llwythau hyn oedd y 'Tehuelche', a deuent o ardal rhwng Culfor Magellan a’r Afon Negro ym Mhatagonia.

Roedd y trefnwyr yn gwybod am fodolaeth y llwythau hyn cyn i'r fintai gyntaf o Gymry hwylio i Batagonia, er nad oedd sicrwydd sut fath o bobl oeddynt. Pwysleisiai Michael D. Jones y dylid trin brodorion Patagonia gyda phob tegwch a'u cydnabod fel perchnogion y tir. Cyfeiriai yn arbennig at yr esiampl a ddangoswyd gan William Penn ym Mhennsylvania yn yr ail ganrif ar bymtheg. Ym 1683 gwnaeth Penn gytundeb gyda brodorion Gogledd America na fyddai'r naill ochr yn defnyddio trais yn erbyn y llall. Dadleuai Michael D. Jones y dylai'r Cymry ymddwyn tuag at frodorion Patagonia yn yr un modd.



*Lewis Jones (1836-1904) ymhlith Tehuelches, c.1867*

O ran pryd a gwedd roedd y Tehuelche yn bobl dal a honnir i un Cymro weld pobl frodorol yn ymyl Culfor Magellan oedd 'yn ddwy lath a deg modfedd o daldra'. Yn dilyn ei ymweliad • â'r Wladfa ym 1882, dywedodd Michael D. Jones fod y Tehuelche 'yn ddynion mawrion, lluniaidd; a golwg rhadlon arnynt'. Yn wir, tybiai rhai cyfoeswyr mai hwy oedd y bobl dalaf yn y byd gyda’r mwyafrif o'u dynion yn mesur chwe throedfedd chwe modfedd o daldra. Tueddent i fod • â chroen tywyll a gwallt hir. Roeddynt fel arfer yn groenlan a byddent yn aml yn peintio’u hwynebau a’u cyrff i amddiffyn eu croen rhag effeithiau’r haul.

Gwisgai’r dynion wisg o’r enw ‘cheripa’. Darn o ddefnydd ydoedd a ch• âi ei glymu am eu canol. Roedd cyrff y merched wedi eu gorchuddio'n gyfan gwbl gan fentyll o groen anifail gwyllt, a defnyddient ewynnau (ligament) estrys i'w clymu. Byddent yn eu gwisgo gyda'r ffwr ar y tu mewn, a’r ochr allanol wedi ei phaentio'n goch.

Roedd y Tehuelche yn arfer defnyddio cwn i hela, ond, yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, dechreuasant ddefnyddio ceffylau. Caent ddigonedd o fwyd ar y paith gan ddibynnu’n helaeth ar gig y gwanaco (anifail tebyg i’r lama) a’r rhea (aderyn tebyg i’r estrys). Eu prif arfau ar gyfer hela oedd y bwa saeth a’r 'boleadores'. Arf oedd y boleadores a chanddo dair pelen garreg ynghlwm wrth dri chordyn lledr. Wrth daflu’r boleadores byddai pwysau'r peli yn galluogi’r cordyn i glymu o amgylch coesau’r anifail a'i faglu.

Nid oedd yr ymfudwyr o Gymru yn gyfarwydd □â hela a bu’r Tehuelche yn garedig iawn yn rhannu eu dulliau hela gyda hwynt. Hyfforddwyd y Cymry i farchogaeth ceffylau gwyllt a dangoswyd iddynt sut i ddefnyddio’r boleadores. Trwy feistroli'r dulliau hyn, gallai'r Cymry hela'r gwanaco a’r rhea gan sicrhau cyflenwad digonol o fwyd iddynt eu hunain. Oni bai am eu perthynas â’r Tehuelche, mae'n bosibl y byddai tynged y Gwladfawyr cynnar wedi bod yn dra gwahanol.



***Boleadores cyflawn a oedd yn perthyn i Robert MacBurnaey, c. 1915***

Llwyth crwydrol oedd y Tehuelche a byddent yn ymweld â’r Gwladfawyr unwaith neu ddwywaith y flwyddyn. Er y bu gwrthdaro rhwng byddin Ariannin a'r llwythau brodorol, bu'r Tehuelche ar delerau da gyda'r Cymry. Roedd y fasnach rhwng y Cymry a'r brodorion yn agwedd bwysig o'u perthynas. Wrth ymweld â Dyffryn Camwy, byddai'r Tehuelche yn cynnig cyfnewid crwyn anifeiliaid gwyllt a phlu estrys am fara, blawd, siwgr, tybaco a the yerba oedd ym meddiant y Cymry. Byddai dillad gwl âu, peisiau a gwisgoedd plant y Cymry wedi eu gwneud gan y Tehuelche. Roedd y Tehuelche hefyd yn hoff iawn o fara’r Gwladfawyr a byddent yn aml yn mynd o dy i dy yn erfyn arnynt i gyfnewid cig am fara. Yn wir, daeth y gair 'bara' yn air cyffredin yng ngeirfa’r llwyth. Yn sgil yr ymweliadau hyn, dysgodd nifer o’r Tehuelche rhywfaint o Gymraeg ac y mae cofnod o’u disgynyddion yn cystadlu yn yr Eisteddfod flynyddol yn Nhrelew.



*Un o frodorion Patagonia yn gwisgo mantell o grwyn gwanacod*

Yn y 1880au, rhagfynegodd Michael D. Jones ddifodiant llwyth y Tehuelche, gan ddadlau mai trwy gydymffurfio â dulliau ymsefydlu'r Ewropeaid yn unig y byddai ganddynt unrhyw obaith o oroesi:

'Credwn nad oes ond difodiant llwyr o'u blaen, os na lwyddir i gael ganddynt i roi i fyny eu bywyd crwydrol, a sefydlu o honynt mewn rhyw fan neillduol; arwain bywyd gwaraidd; ac ymroi i fagu anifeiliaid a thrin y tir. Dyna yn ddiau yw eu hunig waredigaeth. Gwyn fyd na fedrai y Gwladfawyr eu darbwyllo i wneyd hyny.'

Dros y blynyddoedd canlynol, cymhathwyd diwylliant y Tehuelche nes ymdebygu i’r ymfudwyr o Ewrop. Yn hytrach na bod yn 'waredigaeth' iddynt, cyfrannodd hynny at ddiflaniad eu nodweddion diwylliannol. Erbyn heddiw dim ond clwstwr bach o lwyth y Tehuelche sy'n parhau i gadw'r hen arferion ym Mhatagonia.

Ffynonellau

R. Bryn Williams, Y Wladfa (Caerdydd, 1962)

## Tasg 1. Y blynyddoedd cynnar

Beth oedd yr isafbwyntiau a'r uchafbwyntiau ym mlynyddoedd cynnar y Wladfa?

*Cwblhewch y daflen waith - Y Blynyddoedd Cynnar*

## Tasg 2. Dyddlyfr Lewis Jones

Beth fedrwch chi gasglu o ddyddiadur Lewis Jones?

*Darllenwch - Dyddlyfr Lewis Jones, 1862-3*

## Tasg 3. Y Drol

Ysgrifennwch ddarn creadigol i ddisgrifio'r hyn a welwch yn y ffotograff.




*Cerdyn post o'r drol gyntaf yn y Wladfa, c.1866*

*Cwblhewch y daflen waith - Y Drol*

## 4. Amaethyddiaeth

Sut oedd y sefyllfa amaethyddol bryd hynny a sut mae'n cymharu a heddiw?

*Cwblhewch y daflen waith - Bywyd Amaethyddol*

# Y Blynyddoedd Cynnar

Beth oedd yr uchafbwyntiau a'r isafbwyntiau ym mlynyddoedd cynnar y Wladfa?



| uchafbwyntiau | isafbwyntiau |
| --- | --- |
| | |







Hawlfraint: Culturenet Cymru - gellir ei gopio am ddim at ddiben ysgolion
http://www.glaniad.com/addysg

# Dyddlyfr Lewis Jones, 1862-3

Roedd y dyddlyfr hwn yn perthyn i Lewis Jones (1836-1904). Mae'n cofnodi ei daith i Ariannin ym 1862-3 i gynnal trafodaethau â'r llywodraeth ac i archwilio tir ym Mhatagonia.



*Chwefror 11, 1863   6 o'r gloch y boreu*

*Cychwynasom yn y cwch i fyny y Chupat. Glanio a cherdded milltiroedd yma ac acw nes myned ryw 20 milldir i fyny lle yr oedd ucheldir, o'r man y gwelem yr holl fro. Saethu hwyaid a dyfrgwn ar y ffordd, a dychwelyd erbyn wyth o'r gloch y nos. Y ddau gadben yn cweryla, a hyny y mae arnaf ofn yn achosi na chawn gychwyn y foru.*

*12*
*Yn lle dychwelyd y mae'r cadben wedi myned i'r llong ddrylliedig i ysbeilio. Y gwynt yn groes yn dod o ddwylaw Norris yn dod atom wedi ei adael ar y lan yn New Bay*


*13*
*Un o'r dwylaw yn diangc y boreu myned i'r llyn halen ar y lan ddeheuol, lle yr oedd llu-aws o ysgyfarnogod. Y prydnawn i un arall, ond heb ddala dim.*

*14*
*O'r diwedd tua haner dydd dyma gychwyn yn ol wedi oedi annerfyn – yn rhy hwyr ofn wyf i ddal y mail.*

*15 (Sabboth)*
*Dim gwynt a ninnau yn gwneud dim ffordd. Ar gyfer Gorynys Valdes yn y nawn. Pysgod ac adar. Yn wachul iawn.*

# Y Drol


Ysgrifennwch ddarn creadigol yn disgrifio'r hyn a welwch yn y ffotograff.



Hawlfraint: Culturenet Cymru - gellir ei gopio am ddim at ddiben ysgolion
http://www.glaniad.com/addysg

# Bywyd Amaethyddol

Sut oedd y sefyllfa amaethyddol bryd hynny yn cymharu â heddiw?



Hawlfraint: Culturenet Cymru - gellir ei gopïo am ddim at ddiben ysgolion
http://www.glaniad.com/addysg